Syniadau

Senedd

24/02/2020

Nid yw Polisi Buddsoddi sy'n Gymdeithasol Gyfrifol (BGG) Prifysgol Aberystwyth yn ddigon moesegol

Mae'r polisi BGG cyfredol yn caniatáu buddsoddiad mewn tanwydd ffosil a buddsoddiad yn y diwydiant arfau, ymhlith llu o arferion busnes anfoesegol eraill.

Swyddog Gyfrifol: Llywydd yr Undeb

Cyflawnwyd Gan: Ruth Hogg

Manylion:

Nid yw Polisi Buddsoddi sy'n Gymdeithasol Gyfrifol (BGG) Prifysgol Aberystwyth yn ddigon moesegol. Mae'r polisi BGG cyfredol yn caniatáu buddsoddiad mewn tanwydd ffosil a buddsoddiad yn y diwydiant arfau, ymhlith llu o arferion busnes anfoesegol eraill. Rwyf yn cynnig:

a) diwygio'r polisi gan ddefnyddio'r egwyddorion sydd yn y ddogfen atodedig, a luniwyd gan ddefnyddio model gan y Cooperative bank wedi'i addasu, mewn ymgynghoriad â myfyrwyr a'r grŵp dadfuddsoddi. Mae'r polisi newydd yn cynnwys dadfuddsoddi o danwydd ffosil fel y cytunwyd yn ddiweddar gan y Brifysgol fel polisi at y dyfodol.

b) bod y polisi'n cael ei ddiwygio i gydnabod y canlynol... "Bydd penderfyniadau buddsoddi sy'n seiliedig ar ystyriaethau cymdeithasol gyfrifol a moesegol yn cael blaenoriaeth dros safbwynt y Comisiwn Elusennau bod gan ymddiriedolwyr ddyletswydd i sicrhau'r enillion mwyaf ar fuddsoddiad er budd elusennol."

Enghraifft o sut olwg allai fod ar Bolisi Buddsoddi Moesegol Prifysgol Aberystwyth.

Polisi Buddsoddi Moesegol a Chymdeithasol Gyfrifol Prifysgol Aberystwyth

Hyrwyddo hawliau dynol a chydraddoldeb

Rydym ni, Prifysgol Aberystwyth, yn addo **peidio** â buddsoddi ein harian mewn cyfranddaliadau neu asedau sy'n ymwneud ag unrhyw fusnes, cwmni neu sefydliad sydd:

- Yn methu â chynnal hawliau dynol sylfaenol o fewn ei gylch dylanwad.
- Yn cynhyrchu neu drosglwyddo arfau sy'n lladd yn ddiwahân (e.e. bomiau clwstwr ac arfau rhyfel a wnaed o wraniwm disbydd), offer arteithio neu offer arall a ddefnyddir i fynd yn groes i hawliau dynol, neu arfau a gyflenwir i unrhyw wladwriaeth ormesol.
- Yn cynhyrchu unrhyw fath o arfau dinistrio torfol, unrhyw fath o fom neu ddryll neu unrhyw offer a ddefnyddir ar gyfer rhyfel neu amddiffyniad.
- Â chysylltiadau â gwladwriaeth ormesol sy'n destun pryder parhaus.
- Yn annog camwahaniaethu a chymell casineb.
- Yn elwa o adeiladu aneddiadau ar diriogaethau y mae anghydfod yn eu cylch.

Hyrwyddo datblygiad economaidd a chymdeithasol ym Mhrydain

Rydym ni, Prifysgol Aberystwyth, yn addo **peidio** â buddsoddi ein harian mewn cyfranddaliadau neu asedau sy'n ymwneud ag unrhyw fusnes, cwmni neu sefydliad sydd:

Yn cymryd agwedd anghyfrifol tuag at dalu treth yn y DU a gwledydd eraill.

- Â'u busnes craidd yn canolbwyntio ar hapchwarae anghyfrifol fel y'i diffinnir gan ddeddfwriaeth berthnasol.
- Â'u busnes craidd yw darparu benthyciadau diwrnod cyflog.

Sicrhau dyfodol ein hamgylchedd

Rydym ni, Prifysgol Aberystwyth, yn addo **peidio** â buddsoddi ein harian mewn cyfranddaliadau neu asedau sy'n ymwneud ag unrhyw fusnes, cwmni neu sefydliad sydd â'u busnes craidd yn cyfrannu at:

- Newid yn yr hinsawdd yn fyd-eang, drwy echdynnu neu gynhyrchu tanwydd ffosil (olew, glo, nwy a nwy siâl), gydag estyniad i ddosbarthiad y tanwyddau hynny sy'n cael effaith gynhesu fyd-eang uwch (e.e. tywod tar a biodanwydd penodol).
- Cynhyrchu cemegolion sy'n barhaus yn yr amgylchedd, sy'n fio-gronnol eu natur neu'n gysylltiedig â phryderon iechyd hir-dymor.
- Cynaeafu adnoddau naturiol yn anghynaladwy, gan gynnwys coed a physgod.
- Datblygu organebau a addaswyd yn enetig lle mae tystiolaeth eu bod wedi

cael eu rhyddhau i'r amgylchedd heb reolaeth, effeithiau negyddol ar wledydd sy'n datblygu, neu greu patentau, e.e. gwybodaeth frodorol.
- Datblygu nanodechnoleg mewn amgylchiadau sy'n creu risg o niweidio'r amgylchedd neu beryglu iechyd pobl.

Cynorthwyo datblygiad rhyngwladol

Rydym ni, Prifysgol Aberystwyth, yn addo **peidio** â buddsoddi ein harian mewn cyfranddaliadau neu asedau sy'n ymwneud ag unrhyw fusnes, cwmni neu sefydliad sydd:

- Yn methu â gweithredu hawliau llafur sylfaenol fel y'u nodir yng Nghonfensiynau Sylfaenol Cymdeithas Lafur Ryngwladol (ILO) y Cenhedloedd Unedig, e.e. sy'n cyflogi plant, neu sy'n gwrthwynebu hawliau gweithwyr i ffurfio cymdeithasau, e.e. undebau llafur.
- Yn rhwystro mynediad at angenrheidiau dynol sylfaenol, e.e. dŵr yfed diogel neu feddyginiaethau hanfodol.
- Yn ymwneud ag arferion marchnata anghyfrifol, e.e. o ran cynhyrchion tybaco.

Amddiffyn lles anifeiliaid

Rydym ni, Prifysgol Aberystwyth, yn addo **peidio** â buddsoddi ein harian mewn cyfranddaliadau neu asedau sy'n ymwneud ag unrhyw fusnes, cwmni neu sefydliad sydd:

- Yn ymwneud ag ecsbloetio epaod, e.e. mewn arbrofion neu ddefnydd masnachol cyffredinol.
- Â'u gweithgareddau'n cyfrannu'n sylweddol at ddiraddio cynefinoedd rhywogaethau anifeiliaid sydd mewn perygl o ddiflannu.
- Yn ymwneud â phrofi cynhyrchion cosmetig neu i'r cartref neu eu cynhwysion ar anifeiliaid, dulliau ffermio dwys (e.e. cynhyrchu wyau mewn cewyll), hela anifeiliaid (e.e. defnyddio anifeiliaid neu adar mewn chwaraeon i ddal, ymladd neu ladd ei gilydd) neu'r fasnach ffwr.

Rydym ni, Prifysgol Aberystwyth, yn **addo** buddsoddi ein harian mewn cyfranddaliadau neu asedau sy'n ymwneud â busnesau, cwmnïau neu sefydliadau sydd:

Yn hyrwyddo hawliau dynol a chydraddoldeb

Yn hyrwyddo datblygiad economaidd a chymdeithasol ym Mhrydain

Yn amddiffyn ein hamgylchedd

Gall hyn gynnwys:

- Ailgylchu a rheoli gwastraff yn gynaliadwy.

- Ynni adnewyddadwy ac effeithlonrwydd ynni.
- Cynhyrchion naturiol a gwasanaethau cynaliadwy (gan gynnwys coed a chynnyrch organig).
- Mynd ar drywydd cynaladwyedd ecolegol.

Cynorthwyo datblygiad rhyngwladol

Gall hyn gynnwys:
Sefydliadau sy'n cefnogi masnach deg
Darparu cyllid i'r tlawd sy'n gweithio mewn gwledydd sy'n datblygu drwy feicrogyllido.

Amddiffyn lles anifeiliaid

Gall hyn gynnwys:
Busnesau sy'n ymwneud â datblygu dewisiadau amgen i arbrofi ar anifeiliaid
Busnesau sy'n ymwneud â dulliau ffermio sy'n hyrwyddo lles anifeiliaid (e.e. ffermio maes).

Bydd ystyriaethau cymdeithasol gyfrifol a moesegol yn cael blaenoriaeth dros ddyletswydd ymddiriedolwyr i sicrhau'r enillion mwyaf ar fuddsoddiad er budd elusennol.

Rydym yn adrodd yn flynyddol ar ein perfformiad o ran gwerthoedd a moeseg ein buddsoddiadau, a byddwn yn cyhoeddi manylion y penderfyniadau a gymerwn o dan y Polisi Buddsoddi Moesegol ar Wefan Prifysgol Aberystwyth.

Ruth Hogg